



**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas  
Sain Nicolas, Bro Morgannwg, CF5 6SG**

**HYSBYSIAD STATUDOL I GYNYDDU CAPASITI YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG  
NGHYMRU SAIN NICOLAS O 126 LLE I 210 LLE AC EHANGU'R YSTOD OEDRAN O 4-  
11 I 3-11 O FIS MEDI 2021.**

RHODDIR HYSBYSIAD yn unol ag adrannau 42(1)(a) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod y corff llywodraethu, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas drwy:

- Gynyddu capasiti'r ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol statudol o 126 lle i 210 lle (paragraff 10 Atodlen 2 i'r 'Ddeddf'); ac
- Ehangu ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed (paragraff 5 Atodlen 2 i'r 'Ddeddf')

Mae'r ysgol yn un gynradd, cyfrwng Saesneg, yr Eglwys yng Nghymru wirfoddol a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Ymgwymerodd y corff llywodraethu â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ynghyd ag ymatebion y cynigydd ar gael yn yr ysgol ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg yn y cyfeiriad canlynol.

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Expanding-St-Nicholas-CIW-Primary.aspx>

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith ar 1 Medi 2021. Bydd yr ysgol yn parhau yn ysgol wirfoddol a reolir a bydd yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw.

Bydd y cynnig yn arwain at gynyddu nifer derbyn a gyhoeddir yr ysgol o 18 i 30. Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i ddsbarth Derbyn yr ysgol yn 4/5 oed yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff fydd 30. Y nifer derbyn ar gyfer disgyblion oedran meithrin 3 i 4 oed yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf fydd 48 o ddisgyblion rhan amser. Nid yw trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis yn ôl gallu (bandio disgyblion). Yn Ionawr 2019, roedd 128 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol ar gofrestr yr ysgol. Bydd capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn cynyddu o 126 lle i 210 lle.

Mae trefniadau Teithio Dysgwyr Cymru Gyfan<sup>1</sup> yn rhoi cymhwysedd i gludiant ysgol os yw disgyblion yn byw mwy na phellter cerdded i'w hysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig. Diffinnir pellter cerdded fel dwy filltir neu fwy i oedran cynradd a thair milltir neu fwy i oedran uwchradd, fel y mesurir gan y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael. Rhydd Bro Morgannwg gludiant yn unol â'r uchod. Nid yw trefniadau cludiant ysgol, cymhwysedd na hygyrchedd wedi eu heffeithio gan y cynnig hwn.

Yn unol ag adran 49 'y Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig hwn cyn pen 28 diwrnod, yn dechrau o'r diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion, hynny yw erbyn **Dydd Mercher 24 Gorffennaf 2019**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas, Sain Nicolas, Bro Morgannwg, CF5 6SG neu drwy e-bost i: [stnicholasps@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:stnicholasps@valeofglamorgan.gov.uk)

Llofnod:



Dr Jen Hopkins  
Cadeirydd y Llywodraethwyr  
26 Mehefin 2019

## **NODYN EGLURHAOL – NID YW HWN YN RHAN O'R HYSBYSIAD STATUDOL.**

Mae'r corff llywodraethu'n cynnig ehangu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 lle i 210 lle o fis medi 2021.

Gwneir y cynnig dan adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 y cyfeirir atynt fel yr Addasiadau a Reoleiddir.

Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd yr ysgol yn darparu 48 o leoedd meithrin rhan amser a 210 o leoedd ysgol gynradd.

Gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol, yn amodol ar gyllid Llywodraeth Cymru, wrth sefydlu adeilad ysgol newydd i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas ar y safle presennol. Amcan gost y project yw £4.183 miliwn.

---

<sup>1</sup> Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Chanllawiau Gweithredu Darpariaeth Statudol Dysgwr a Theithio Mehefin 2014